

Digidol  
2030



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cynllun Cadernid Covid-19 ar gyfer y sector ôl-16

Dysgu ac addysgu cyfunol: awgrymiadau ymarferol  
ar gyfer ymarferwyr addysgu

Rhagfyr 2020



## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn ychwanegiad ymarferol i ategu'r [canllawiau dysgu cyfunol](#) blaenorol fel rhan o'n [Cynllun Cadernid Covid-19 ar gyfer y sector ôl-16](#).

Mae'r sgiliau a'r dulliau addysgegol sydd eu hangen ar gyfer addysgu a dysgu ar-lein yn wahanol i'r rheini sydd eu hangen ar gyfer addysgu a dysgu wyneb yn wyneb, neu yn yr ystafell ddosbarth. Mae hwn yn faes ymarfer cymhleth ac rydym yn gwerthfawrogi y bydd gan ymarferwyr wahanol lefelau o brofiad o addasu eu hymarfer i'r amgylchedd ar-lein. Mae nifer o ymarferwyr addysgu a dysgwyr yn canfod sut mae gweithio a dysgu mewn lleoliadau sydd efallai'n anghyfarwydd. Yn groes i hynny, mae nifer o ymarferwyr eisoes yn brofiadol ac yn hyderus wrth ddarparu dysgu ar-lein a dysgu cyfunol, ac efallai eu bod wedi gallu cefnogi cydweithwyr i ddatblygu eu sgiliau ymhellach.

Ar sail adborth cychwynnol ynghylch profiadau go iawn a'r 'gwersi a ddysgwyd' ers dechrau blwyddyn academiaidd 2020/21, mae'r ddogfen hon wedi cael ei dylunio i roi ychydig o awgrymiadau ymarferol i ymarferwyr addysgu ar gyfer defnyddio dulliau dysgu cyfunol yn effeithiol. Gobeithio y byddant yn helpu i reoli sefyllfaoedd lle mae rhai dysgwyr yn bresennol mewn ystafell ddosbarth a rhai eraill yn dysgu o bell. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnig rhai awgrymiadau i drosglwyddo arferion da cyffredinol o addysgeg 'draddodiadol' i'r amgylchedd ar-lein.

Mae'r sector 'ôl-16' yn cynnwys ystod eang o ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 16 oed a hŷn, gan gynnwys dysgu amser llawn, dysgu rhan-amser, pynciau academiaidd a galwedigaethol, prentisiaethau a hyfforddeiaethau, a dysgu gydol oes. Efallai y bydd darparwyr dysgu ac ymarferwyr addysgu yn gweld na fydd pob elfen o'r ddogfen hon yn uniongyrchol berthnasol i'w hamgylchiadau nhw. Nid yw'r ddogfen hon yn rhoi cyfarwyddiadau pendant, ond mae'n cyflwyno casgliad o awgrymiadau er mwyn i unigolion allu dewis pwyntiau a allai fod yn ddefnyddiol iddyn nhw yn eu harferion dysgu ac addysgu bob dydd. Byddem yn falch o gael eich adborth, eich awgrymiadau a'ch syniadau ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda [post16quality@llyw.cymru](mailto:post16quality@llyw.cymru).

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei datblygu gyda'n Gweithgor Dysgu Cyfunol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyd-undebau Llafur, Estyn, Jisc, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Colegau Cymru, Cymwysterau Cymru, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sefydliadau Addysg Bellach, darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith a phartneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

## Cynnwys

Y prif ddiffiniadau sy'n cael eu defnyddio yn y ddogfen hon	2
Beth yw manteision posibl defnyddio dysgu cyfunol yn effeithiol?	2
Awgrymiadau i hwyluso profiad dysgu da o bell	3
Gosod disgwyliadau clir	3
Strwythuro gweithgareddau addysgu a dysgu	4
Paratoi adnoddau a defnyddio offer digidol	5
Cynhwysiant	5
Diogelwch a phreifatrwydd ar-lein	6
Ble mae cael rhagor o help a chefnogaeth?	7

### Y prif ddiffiniadau sy'n cael eu defnyddio yn y ddogfen hon:

- Mae **dysgu cyfunol** yn gyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb a gweithgareddau a chynnwys digidol dynamig sy'n golygu bod modd dysgu unrhyw le/unrhyw bryd.<sup>1</sup>
- Mae **dysgu cydamserol** yn golygu sesiynau wedi'u trefnu lle mae dysgwyr yn mynychu ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau 'byw' (ar-lein neu wyneb yn wyneb) gyda'u tiwtor a dysgwyr eraill.
- Mae **dysgu anghydamserol** yn golygu bod y dysgwr yn cwblhau tasgau penodol a dysgu annibynnol, heb ryngweithio 'byw'.

Yng nghyd-destun Covid-19 lle nad yw dysgwyr efallai'n gallu bod yn bresennol ar y safle, neu lle mae angen rhannu dosbarthiadau yn grwpiau llai, gall dysgu o bell helpu dysgwyr i barhau i symud ymlaen.

Mewn rhai achosion, mae darparwyr dysgu wedi cynllunio rhaglenni dysgu cyfunol ar gyfer 2020/21 i gyd, er mwyn helpu i reoli faint o ddysgwyr sydd ar y safle ar yr un pryd.

### Beth yw manteision posibl defnyddio dysgu cyfunol yn effeithiol?

- Mae cynllunio dysgu cyfunol yn effeithiol yn cadw lefel o strwythur a 'cherrig milltir' allweddol lle gall y dysgwr a'r ymarferydd addysgu gadarnhau bod y dysgu wedi digwydd, mesur cynnydd a derbyn/darparu adborth.
- Yn yr un modd â sesiynau 'traddodiadol', mae modd rhannu sesiwn bell yn flociau llai yn ôl y math o weithgaredd (er enghraifft; mewnbyn y tiwtor, gweithgaredd y dysgwr, adborth y grŵp a gwerthuso'r wers). Mae dysgu anghydamserol yn rhoi mwy o hyblygrwydd fel nad oes angen cwblhau'r gweithgareddau hyn 'yn syth ar ôl ei gilydd' mewn un sesiwn.
- Mae sesiynau anghydamserol hefyd yn gallu helpu dysgwyr i ddal ati i ddysgu mewn sefyllfaoedd lle maen nhw o bosibl yn wynebu heriau yn eu hamgylchedd cartref (ee mynediad at ddyfeisiau, problemau cysylltu, man tawel i ddysgu) neu pan fydd angen cydbwysu'r amser sy'n cael ei dreulio'n dysgu ag anghenion eraill (ee cyfrifoldebau rhiant neu gyfrifoldebau gofal eraill).
- Mae modd defnyddio sesiynau cydamserol i ddarparu pwyntiau cyswllt 'penodol' a chyfleoedd ar gyfer mwy o ryngweithio rhwng y tiwtoriaid a'r dysgwyr; trin a thrafod materion allweddol yn fwy manwl; cyfleoedd i ddysgwyr rannu'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu ac ymgysylltu â'u cyfoedion mewn amser real.

Mae cyfuno gweithgareddau dysgu cydamserol ac anghydamserol yn ychwanegu at hyblygrwydd, yn hybu ymreolaeth y dysgwyr ac yn gallu caniatáu i'r ymarferwyr addysgu ganolbwyntio eu cymorth mewn ffordd sy'n fwy ystyrlon.

<sup>1</sup> <https://www.jisc.ac.uk/guides/creating-blended-learning-content>

## Awgrymiadau i hwyluso profiad dysgu da o bell

### Gosod disgwyliadau clir

- Dylai dysgwyr fod wedi arfer â chael cod ymddygiad neu ofynion safonol ar gyfer ymddygiad pan fyddant yn y dosbarth yn gorfforol. Efallai fod eich sefydliad wedi llunio cod tebyg ar gyfer ymddygiad ar-lein.
- Mae [cyngor gan SAGE](#) yn datgan bod canllawiau ar sut mae ymddwyn yn fwy tebygol o gael eu dilyn os ydynt wedi cael eu cynhyrchu ar y cyd gan y staff a'r dysgwyr dan sylw. Gallai codau ymddygiad gynnwys:
  - Prydlondeb a phresenoldeb, gan gynnwys a yw presenoldeb ar amser penodol yn orfodol ac a yw dysgwyr yn cael gadael y sesiwn.
  - Disgwyliadau ynghylch cymryd rhan mewn sesiynau (defnyddio camerâu, meicroffonau, swyddogaethau sgwrsio, er enghraifft).
  - Gwisgo a chyrraedd yn barod i ddysgu.
- Gwnewch yn siŵr bod y dysgwyr wedi gweld y canllawiau neu'r cod ymddygiad, a bod gennych broses glir i herio'r rheini nad ydynt yn cydymffurfio a'ch bod yn gwybod pa gamau i'w cymryd os bydd yr ymddygiad yn parhau.
- Dylid cofnodi achosion o gyrraedd yn hwyr a diffyg presenoldeb yn unol â pholisïau a phrosesau presenoldeb eich darparwr, er mwyn gallu adnabod patrymau neu dueddiadau a chefnogi'r dysgwr yn briodol.
- Bydd dechrau pob sesiwn gyda throsolwg byr a chdir o sut a phryd byddwch chi'n disgwyl i'r dysgwyr gymryd rhan yn eu helpu i baratoi ac mae'n gallu helpu'r dysgwyr hynny sy'n poeni am 'wneud pethau'n iawn' a pheidio â gwneud camgymeriadau o flaen eu cyfoedion.
- Esboniwch i'r dysgwyr sut a phryd byddan nhw'n cael gofyn cwestiwn yn ystod sesiwn (ee drwy godi llaw a gofyn cwestiwn ar lafar, neu deipio cwestiwn mewn swyddogaeth sgwrsio ar-lein), a/neu sut mae cysylltu â chi'n breifat gydag unrhyw ymholiadau y tu allan i'r sesiynau sydd wedi'u trefnu. Os na fyddwch chi'n gallu ateb pob cwestiwn yn ystod sesiwn, gallwch reoli disgwyliadau'r dysgwyr drwy roi gwybod y byddwch chi'n ateb unrhyw gwestiynau sydd dros ben yn nes ymlaen.
- Rhowch amserlen glir a realistig i'r dysgwyr ynghylch pryd byddan nhw'n gallu disgwyl ymateb i ymholiadau ac adborth ar unrhyw waith sydd wedi cael ei farcio neu ei asesu. Gallech chi baratoi ymateb byr safonol i'w ddefnyddio i gydnabod eich bod wedi derbyn gwaith dysgwyr (gan eu sicrhau bod eu gwaith wedi eich cyrraedd), sydd hefyd yn amlinellu'r amserlen ar gyfer derbyn adborth.
- Mae defnyddio adborth llafar yn lle testun yn gallu cyflymu'r broses i ymarferwyr addysgu ac yn gallu gwella'r cyswllt rhwng unigolion.
- Pan gaiff ei ddefnyddio'n briodol, mae adborth gan gyfoedion hefyd yn gallu hybu cyfranogiad ac ymgysylltiad, ac mae'n gallu ysgafnhau rhywfaint o'r pwysau sydd ar ymarferwyr addysgu. Mae angen fframio hyn yn iawn, er mwyn i'r dysgwyr wybod beth sy'n ddisgwylidig a sut mae rhoi adborth adeiladol.

## Strwythuro gweithgareddau addysgu a dysgu

- Mae hi'n gallu bod yn anodd iawn i ymarferwyr gyflwyno sesiynau i ddysgwyr ar y safle ar yr un pryd ag i eraill sydd gartref. Mae hi'n arbennig o anodd sicrhau bod pawb yn cymryd rhan a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Meddylwch a fyddai mod i ddysgwyr o bell gymryd rhan mewn ffyrdd gwahanol neu ar adegau gwahanol.
- Mae sesiynau (cydamserol neu anghydamserol) sy'n cael eu cyflwyno mewn blociau byr yn helpu i gadw sylw dysgwyr a lleihau gorflinder sgrin. Mae modd rhannu sesiwn yn flociau llai yn ôl y math o weithgaredd (ee mewnbwn y tiwtor, gweithgaredd y dysgwr, adborth y grŵp a gwerthuso'r wers) ac efallai na fydd angen eu cwblhau un ar ôl y llall mewn un sesiwn.
- Mae darparu cymysgedd o sesiynau cydamserol a gweithgareddau anghydamserol yn golygu bod y dysgwyr yn gallu astudio'n hyblyg ar yr un pryd â dal i deimlo bod ganddyn nhw gysylltiad â'u tiwtoriaid a'u cyfoedion.
- Mae defnyddio ardaloedd cydweithio ar-lein ar gyfer tasgau anghydamserol rhwng cyfoedion a/neu mewn grwpiau yn gallu cyfoethogi profiad y dysgwyr a rhoi teimlad o berthyn. Meddylwch a oes angen mewnbwn staff ar gyfer gweithgareddau grŵp dysgu cydweithredol (gan gynnwys goruchwyllo neu gymedroli). Mae'n bosibl y bydd lefel y mewnbwn gan staff yn amrywio yn ôl natur yr ymarfer a pha mor gyfarwydd yw'r dysgwyr â'r math hwn o weithgaredd cydweithredol (ac unrhyw offer digidol sy'n cael eu defnyddio).
- Efallai y bydd plattform eich sefydliad neu'r [offer digidol](#) sy'n cael eu defnyddio gan eich sefydliad yn cefnogi gweithgareddau cydweithredol fel: microffonau ac ystafelloedd trafod; swyddogaeth sgwrsio breifat i ofyn cwestiynau neu i ofyn am gefnogaeth dechnegol; pleidleisiau a chwisiau i gadarnhau bod pawb yn deall ac i rannu syniadau; rhannu sgrin ac offer anodi i ddarlunio cysyniadau allweddol.
- Mae arbrofi gydag offer digidol a phrofi syniadau gyda chydweithiwr cyn eu defnyddio 'go iawn' gyda dysgwyr yn gallu helpu i leihau pryder ymarferwyr mewn sesiynau dysgu ar-lein byw. Efallai y bydd cefnogaeth a/neu hyfforddiant ar gael gan eich sefydliad hefyd.
- Cofiwch efallai y bydd angen rhywfaint o gefnogaeth ac amser ar ddysgwyr hefyd er mwyn gallu defnyddio offer digidol newydd yn hyderus. Mae cyflwyno gormod o offer newydd mewn cyfnod byr yn gallu gwneud i'r dysgwyr ganolbwyntio ar y dechnoleg yn hytrach na chynnwys eu dysgu.
- Rhowch dasgau mwy 'gweithredol' (ee cwisiau byr neu weithgareddau myfyriol) rhwng tasgau dysgu 'goddefol' (ee gwrando, gwyllo, gwrando). Mae modd defnyddio tasgau gweithredol i gadarnhau bod dysgwyr wedi deall ac i helpu i fonitro cynnydd y dysgwr; yn enwedig gyda sesiynau anghydamserol.
- Efallai y bydd rhai dysgwyr yn poeni am ddisgyn ar ei hôl hi os ydynt yn treulio llai o amser ar y safle, yn enwedig os oes ganddyn nhw arholiadau neu asesiadau ar y gweill. Byddai modd eu helpu i deimlo bod ganddyn nhw fwy o reolaeth drwy eu sicrhau y bydd holl gynnwys y cwricwlwm yn cael sylw, a drwy roi awgrymiadau ymarferol ar gyfer dysgu annibynnol.

## Paratoi adnoddau a defnyddio offer digidol

- Wrth greu adnoddau cwricwlwm ar gyfer darpariaeth anghydamserol wedi'i chynllunio, cadwch unrhyw adnoddau sain neu fideo yn fyr, a chyfuno'r rhain â gweithgareddau lle mae'r dysgwyr yn ymgysylltu â'r cynnwys. Bydd dibynnu gormod ar fideos hir neu o ansawdd isel yn aml yn golygu bod y dysgwyr yn colli diddordeb.
- Mae recordio sesiynau'n gallu creu adnodd defnyddiol i'r dysgwyr ailedrych arno, neu ei ddefnyddio i 'ddal i fyny'. Fodd bynnag, cofiwch na fydd hi'n briodol recordio sesiynau bob tro, a dylid gofyn i bawb sy'n cymryd rhan (y dysgwyr a'r staff) am ganiatâd cyn recordio sesiwn. Mae recordio sesiynau'n gallu ychwanegu gwerth i'r holl ddysgwyr, ond nid yw hyn gystal â chymryd rhan weithredol reolaidd mewn sesiynau grŵp.
- Efallai fod defnyddwyr yn defnyddio ystod eang o ddyfeisiau gyda sgriniau gwahanol faint (ee ffôn clyfar, tabled, Chromebook, gliniadur, cyfrifiadur bwrdd gwaith) a gyda chaledwedd gwahanol (ee gyda/heb lygoden, pad tracio neu fysellfwrdd). Efallai nad oes gan ddysgwyr yr un systemau gweithredu a/neu feddalwedd ag y bydden nhw'n eu defnyddio ar y safle. Mae angen ystyried hyn, a'i adolygu'n rheolaidd, a bydd yn cyfrannu at ddylunio gweithgareddau, cynnwys ac adnoddau dysgu.
- Mae adborth gan ddysgwyr yn dangos bod symlrwydd a chysondeb yn bwysig er mwyn iddyn nhw allu cael gafael yn rhwydd ar weithgareddau, cynnwys a chefnogaeth.
- Gwnewch yn siŵr bod rheswm addysgegol cadarn dros ddefnyddio unrhyw offer digidol i helpu i hybu ymgysylltiad y dysgwyr, a meddyliwch am arbrofi gydag offer newydd cyn eu defnyddio 'go iawn' gyda'r dysgwyr.
- Meddyliwch pa mor hawdd yw defnyddio'r plattform neu'r offer digidol; er enghraifft, a oes angen i'r dysgwr greu cyfrif neu gyfrinair gwahanol (ymlaen llaw) er mwyn ei ddefnyddio, ynteu a fydd yn gallu mewngofnodi'n awtomatig drwy Rith-amgylchedd Dysgu neu blatfform craidd arall eich sefydliad?
- Meddyliwch am gael "Cynllun wrth gefn" os na fydd y dechnoleg yn gweithio yn ôl y bwriad.

## Cynhwysiant

- Bydd greu cynnwys hygyrch o fudd i'r holl ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr nad ydynt efallai wedi datgan anabledd neu angen cymorth ychwanegol.
- Wrth gynllunio eich darpariaeth, cofiwch am yr heriau mae dysgwyr o bell yn eu hwynebu.
- Mae modd defnyddio gweithgareddau proffilio dosbarth a dysgwyr unigol i ganfod anghenion o hyd, ond bydd angen eu haddasu i ystyried yr amgylchedd digidol, gan gynnwys dyfeisiau digidol, offer ac ati. Efallai y bydd rhai darparwyr dysgu yn cynnwys archwiliad personol o offer a galluoedd digidol fel rhan o'r broses gynefino ar gyfer dysgwyr newydd.
- Mae'n bosibl y bydd pethau eraill sy'n digwydd o'u cwmpas, a/neu broblemau technegol fel problemau cysylltu neu led band cyfyngedig yn dylanwadu ar



ymddygiad dysgwyr (ee ni fyddant yn defnyddio eu camera nac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fideo byw).

- A yw'n hanfodol bod dysgwr yn ymddangos ar gamera? Os oes angen i'r dysgwyr ddefnyddio eu camera, a oes angen gwneud hynny drwy gydol y sesiwn ynteu ddim ond ar adegau penodol (ee wrth ymuno ar y dechrau, wrth ofyn cwestiwn neu wrth gyfrannu at sesiwn ryngweithiol)? Ydych chi wedi egluro hyn yn glir i'ch dysgwyr?
- Mae annog y dysgwyr i ddefnyddio clustffonau (neu'r clustffonau gyda microffon a ddaw yn aml gyda ffôn clyfar) yn gallu helpu i leihau sŵn cefndir a'u galluogi i gyfrannu ar lafar.
- Mae rhai darparwyr wedi creu cefndiroedd corfforaethol y mae eu staff a'u dysgwyr yn gallu eu defnyddio mewn sesiynau ar-lein byw (ee ar Microsoft Teams neu Hwb). Os nad oes cefndiroedd corfforaethol ar gael, gallech chi wahodd y dysgwyr i ymuno â sesiynau fideo byw drwy ddefnyddio cefndir aneglur fel nad oes yn rhaid iddynt ddangos yr hyn sydd o'u hamgylch.
- Efallai y bydd dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn elwa o edrych ar unrhyw osodiadau hygyrchedd parod sydd ar eu dyfais; a/neu ddefnyddio offer a swyddogaethau hygyrchedd (ee Darllenydd Ymdrwythol Microsoft, ychwanegyn ReciteMe ac ati)
- Meddyliwch am brosesau mewnol eich sefydliad ar gyfer nodi materion sy'n ymwneud â hygyrchedd ac allgáu digidol a chynnig cefnogaeth i ddysgwyr; gan gynnwys pwy ddylid cysylltu â nhw i gael rhagor o gefnogaeth a sut mae gwneud hynny.

### Diogelwch a phreifatrwydd ar-lein

- Dylai'r staff a'r dysgwyr ddeall polisïau a gweithdrefnau craidd y sefydliad a fydd yn berthnasol yn yr amgylchedd ar-lein (ee diogelu a diogelu data).
- Datblygwch arferion personol da, fel gwneud yn siŵr nad oes gennych chi unrhyw wybodaeth sensitif neu gyfrinachol ar agor ar eich sgrin cyn dechrau sesiwn fyw gyda dysgwyr, rhag ofn i chi ei rhannu'n ddamweiniol.

## Ble mae cael rhagor o help a chefnogaeth?

Mae'r sector 'ôl-16' yn cynnwys ystod eang o ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr a gwahanol fathau (a meintiau) o sefydliadau darparwyr dysgu. Mae'n debyg y bydd gan eich darparwr dysgu sianeli ar gael ichi gael rhagor o wybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau eich sefydliad, a gofyn am gymorth gyda materion fel:

- Cefnogaeth dechnegol a/neu TG
- DPP, hyfforddiant a/neu gefnogaeth gan gymheiriaid (ee mentora; pencampwyr digidol)

Rydyn ni hefyd wedi cynnwys dolenni at ragor o wybodaeth gyffredinol ar bynciau allweddol a allai fod yn ddefnyddiol ichi.

### Canllawiau dysgu cyfunol

- [Canllawiau dysgu cyfunol](#) ar gyfer darparwyr ôl-16, wedi'u cydgynhyrchu gan aelodau gweithgor Dysgu Cyfunol Llywodraeth Cymru
- Mae awgrymiadau, syniadau ac adnoddau defnyddiol yn [digital pedagogy toolkit](#) newydd Jisc (cyhoeddwyd ym mis Hydref 2020)
- Canllaw cyflym Jisc [Developing blended learning approaches](#)
- [Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch: Building a taxonomy for digital learning \(2020\)](#)

### Hygyrchedd

- Mae gweithgor hygyrchedd digidol dan arweiniad y sector wedi datblygu adnodd [digital accessibility toolkit](#)
- Mae [Prifysgol Sussex](#) a [Chyngor Swydd Gaerwrangon](#) wedi cynhyrchu canllawiau ar-lein a phosteri mae modd eu llwytho i lawr

### Datblygiad proffesiynol

- Mae'r dudalen [Datblygiad proffesiynol parhaus Ôl-16](#) ar Hwb yn cyfeirio at ddeunyddiau i gefnogi staff, gan gynnwys rhywfaint o hyfforddiant ar-lein am ddim
- Mae parth [Cadw'n ddiogel ar-lein](#) Hwb yn cefnogi plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a llywodraethwyr, gyda diogelwch ar-lein a seiberddiogelwch